# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

# CYFRIFON BLYNYDDOL 2002/2003

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR

### Cefndir Statudol

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru drwy Siarter Ymgorffori Frenhinol ar 19 Mawrth 1907 (a Siarter Atodol gyda darpariaethau eraill ar gyfer cyfansoddiad a llywodraethu'r llyfrgell ar 5 Medi 1911). Rhoddwyd Siarter Atodol arall iddi ar 27 Ebrill 1978. Yn ystod 2002/2003 fe'i hariannwyd yn bennaf gan grantiau oddi wrth y Llywodraeth a ddarparwyd trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys dan Adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Gellir cael copi o'r Cyfarwyddyd oddi wrth y Cyfarwyddwr Cyllid.

Mae'r Llyfrgell yn un o chwe llyfrgell adnau cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Fe'i cymeradwywyd fel ystorfa ar gyfer cofnodion coffa gan Feistr y Rholiau ym 1926; ar gyfer Archifau'r Eglwys yng Nghymru, a adneuwyd ym 1934, a Chofnodion yr Eglwys yng Nghymru a adneuwyd ym 1944. Dan gyfarwyddyd yr Adran Brofiant, trosglwyddwyd y Cofnodion Profiant Eglwysig i'r Llyfrgell ym 1945. Ym 1960 fe'i penodwyd yn ystorfa ar gyfer rhai cofnodion dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Mae Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn enwi Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel corff a all ond ennill swyddogaethau a hynny dim ond gyda chydsyniad.

### Amcanion

Prif amcanion y Llyfrgell yw casglu, diogelu a gofalu am ddeunydd printiedig, graffig a chlyweled, llawysgrifau a chofnodion sy'n ymwneud â phobl Cymru a'r gwledydd Celtaidd a deunydd ar gyfer hyrwyddo ymchwil lenyddol a gwyddonol ac addysg uwch, fel a bennwyd o fewn Amcanion y Llyfrgell yn ei Siarteri Brenhinol. Fe'u hystyrir yn ddiymwad ac maent yn cynnwys yn bennaf llyfrau, llawysgrifau, mapiau, paentiadau, a deunydd sain a delweddau symudol a gasglwyd ers sefydlu'r Llyfrgell. Mae gan y Llyfrgell dros 4,000,000 o eitemau yn ei chasgliad yn dyddio o'r 12fed Ganrif. Mae'r casgliadau hyn ar agor i'r cyhoedd.

### Elusen

Mae'r Llyfrgell yn elusen gofrestredig, rhif elusen 525775, Rhif TAW 122 1209 32, dan enw Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y cyfeiriad yw Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU.

### Treth Gorfforaeth

Mae'r Llyfrgell wedi'i heithrio rhag gorfod talu Treth Gorfforaeth dan adran 505 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

### Swyddogaethau Craidd

Nodweddir gweithrediadau'r Llyfrgell gan raglenni gwaith parhaus yn hytrach na chan brosiectau tymor byr. Mae'r swyddogaethau craidd canlynol yn cynrychioli'r gwaith sylfaenol y mae'n rhaid i'r Llyfrgell ymgymryd ag ef os yw am gydymffurfio â'i Siarter.

Y rhain felly yw busnes hanfodol a pharhaus y Llyfrgell. Ni ragwelir y bydd y swyddogaethau craidd hyn yn newid:

1. darparu gwasanaeth effeithiol ac amserol i ddefnyddwyr agos a phell trwy wasanaethau cyflwyno ac ymholiadau a thrwy ddarparu catalogau awtomataidd ac â llaw a llawrestrau.

2. casglu deunyddiau trwy adnau cyfreithiol, pwrcasu, rhoddion, cymynroddion, cyfnewid, ac adnau, yn unol â pholisïau datblygu casgliadau diffiniedig a luniwyd yn unol â thelerau'r Siarter, a phrosesu a storio'r deunyddiau a bwrcasir.

3. cadw a diogelu'r deunyddiau yn y casgliadau.

4. dehongli a rhoi cyhoeddusrwydd i'r casgliadau trwy arweinlyfrau, cyhoeddiadau, llyfryddiaethau cyhoeddedig ac ar-lein, arddangosfeydd, darlithoedd ac unrhyw ddulliau priodol eraill, a chynhyrchu a chynnal y bywgraffiaduron cenedlaethol

5. darparu arweiniad a chydweithrediad proffesiynol ac arbenigol ar lefel Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Cefnogir y swyddogaethau craidd hyn gan strwythurau rheoli priodol, rheoliadau ariannol effeithiol, a rhaglenni hyfforddi a datblygu staff.

**Canlyniadau a Neilltuadau Arian**

Paratoir y cyfrifon dan Adran 9 (4) Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Roedd yr adnoddau net a dderbyniwyd gan y Llyfrgell ar gyfer y flwyddyn ariannol yn £1.380m (2002-02 £0.903m). Roedd cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd gan y Llyfrgell yn dod i £11.369m (2001-02 £8.935m) ac roedd cyfanswm yr adnoddau a wariwyd cyn costau tybiannol yn £9.989m (2001-02 £8.032m). Roedd balansau'r cronfeydd ar 31 Mawrth 2003 yn £52.572m (2002 £49.646m).

Rhoddir adroddiad am berfformiad y Llyfrgell yn erbyn ei thargedau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel a ganlyn:

| | | Targed | Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhaglen ôldrosi: Daliadau unigryw a deunyddiau Celtaidd printiedig | 21,000 | 18,705 |
| 2 | Gofal Cwsmeriaid: amseroedd cyflwyno | 90% | 82.1% |
| 3 | Niferoedd Ymwelwyr | 54,000 | 91,710 |

Disgrifir y rhain ynghyd â sylwadau cefnogi yn Adroddiad Blynyddol y Llyfrgell.

**Adolygu’r Gweithgareddau**
Mae prif weithgareddau’r sefydliad yn gysylltiedig â’i amcanion fel y’u diffinnir uchod. Rhoddir adroddiad am ddatblygiad y gweithgareddau hyn yn yr Adroddiad Blynyddol y mae'r Cyfrifon Blynyddol hyn yn rhan ohono.

**Datganiad o Arferion Cymeradwy gan Elusennau**
Cyhoeddodd y Comisiynwyr Elusennau Ddatganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) ar gyfer elusennau ym mis Hydref 1995 a ddiweddarwyd gan Ddatganiad o Arferion Cymeradwy gan Elusennau 2000. Mae'r Llyfrgell wedi cydymffurfio â'r Datganiad ers cyfrifon 1996/97.

**Prisio’r Asedau Sefydlog Diriaethol**
Comisiynodd y Llyfrgell ailbrisiad gan Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig ar adeiladau’r Llyfrgell a’r tir a’r offer rhydd-ddaliadol yn ystod 2001/2002 yn unol â rheoliadau’r Trysorlys a’i gyfarwyddyd cyfredol i gyrff cyhoeddus ar gyfrifo ar sail costau. Dangosir y tir ar sail gwerth y farchnad agored ac asedau sefydlog diriaethol ar sail cost ddibrisiedig eu hadnewyddu. Mae’r prisiadau’n cael eu haddasu’n flynyddol drwy fynegeio rhwng pob prisiad ffurfiol sy’n cael ei gynnal bob 5 mlynedd.

**Asedau Sefydlog**
Dyma’r newidiadau mwyaf arwyddocaol i’r asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

i. Pwrcasu caledwedd cyfrifiadurol a gwelliannau i’r rhwydwaith o fewn y Strategaeth Systemau Gwybodaeth.
ii. Adnewyddu llawr isaf y Llyfrgell a gwaith arall fel rhan o gynllun Profiad yr Ymwelydd.

Yn unol â gofynion SORP Elusennau 2000, o’r 1af o Ebrill 2001 ymlaen, bu’n rhaid i’r Llyfrgell gofnodi gwerth eitemau a brynir ar gyfer y casgliadau yn y fantolen. Ystyrir bod yr asedau hyn yn dod o fewn y diffiniad o asedau hanesyddol neu ddiymwad ac nid ydynt yn cael eu dadbrisio na’u hailbrisio.

**Datblygiadau’r Dyfodol**
Mae’r Llyfrgell wedi paratoi ei chynllun corfforaethol o’r enw “Llyfrgell Ddigidol, Llyfrgell Agored”. Mae’r ddogfen hon yn pennu’r ddau brif flaenoriaeth ar gyfer datblygu’r Llyfrgell yn y cyfnod hyd at 2005/06 sef:

1. Cynllun y Llyfrgell Ddigidol – nod y cynllun yw cyrraedd cynulleidfa ehangach, cynulleidfa fyd-eang hyd yn oed, trwy ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl i ddefnyddwyr ar draws y rhyngrwyd. Mae tair rhaglen i’r cynllun. Eu nod yw:

- cwblhau rhestru cynnwys y Llyfrgell ar-lein
- mowntio copïau digidol, ar-lein o eitemau o’r casgliadau
- casglu, storio a sicrhau bod cyhoeddiadau di-brint (electronig yn bennaf) ar gael a fydd yn llifo o ddeddfwriaeth newydd sy'n ymestyn cwmpas adnau cyfreithiol.

2. Cynllun y Llyfrgell Agored – bydd hyn yn agor y Llyfrgell i grwpiau, megis dysgwyr gydol oes, nad oeddynt yn draddodiadol yn cael eu gwasanaethu ganddi yn y gorffennol. Ei nod yw:

- sefydlu canolfan ymwelwyr fel estyniad i adeilad presennol y Llyfrgell. Yn 2002/03 ariannwyd hyn yn bennaf gan grant oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfeydd Preifat y Llyfrgell.
- Gweithredu Strategaeth Addysg a Dysgu’r Llyfrgell

**Cyflogi Pobl Anabl**
Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru drefn recriwtio anwahaniaethol ac mae bob amser yn fodlon ystyried ceisiadau gan bobl anabl, a’u penodi. Mae’r Llyfrgell hefyd yn ymdrechu hyd eithaf ei gallu i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau angenrheidiol er mwyn iddynt allu ymgymryd â’u gwaith yn effeithiol.

**Polisi ar Dalu i Gredydwyr**
Mae gan y Llyfrgell drefn fonitro i fesur perfformiad y Llyfrgell yn erbyn “Cod Trefn Talu'n Well”. Yn ystod 2002/03, talwyd 96% (2001/02 – 98%) o anfonebau awdurdodedig o fewn 30 diwrnod.

**Yr Ewro**
Ym marn y Llyfrgell ni fydd cyflwyno'r ewro'n cael effaith sylweddol ar ei gweithrediadau na'i chyfrifon.

**Ymgynghori â Gweithwyr**
Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhoi gwybodaeth i staff mewn sawl ffordd gan gynnwys cyfarfodydd staff, sesiynau briffio tîm, memoranda agored, memoranda i Benaethiaid Adrannau, ymgynghori a negodi gyda Chyngor Whitley a'r Undebau Llafur.

**Aelodau’r Llys / Cyngor**
Y Cyngor yw’r awdurdod gweithredol sy’n gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo’r Llyfrgell y buddsoddir yr holl arian a gyfrennir gan y Trysorlys neu a geir o ffynonellau eraill ynddi, a’r holl diroedd, adeiladau neu roddion ar ffurf nwyddau a gymynroddir neu a roddir at ddibenion y sefydliad. Er mwyn cydymffurfio â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy 'Cyfrifo gan Elusennau', perfformir rôl yr Ymddiriedolwr gan y Cyngor.

Atodir rhestrau o aelodau’r Llys a’r Cyngor a oedd yn weithredol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2003 yn y rhagair hwn.

Penodir aelodau’r Llys naill ai yn rhinwedd y swydd sydd ganddynt yn y Llyfrgell, fel aelod o gorff penodedig neu trwy gyfethol gan y Llys ei hun.

Nid yw aelodau'r Llys na'r Cyngor yn derbyn unrhyw dâl ac mae'r Llyfrgell yn dibynnu arnynt i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau eraill yn wirfoddol.

**Strwythur Sefydliadol**
Y Llyfrgellydd yw'r Swyddog Cyfrifo a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i cynorthwyir yn ei ddyletswyddau gan yr Uwch Dîm Rheoli a cheir manylion aelodau'r tîm hwnnw yn nodyn 6.
Mae'r Llyfrgell wedi sefydlu isbwyllgorau i'r Cyngor sy'n cynnwys y Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Adeiladau a'r Pwyllgor Staffio. Bydd y pwyllgorau hyn yn ystyried materion sy'n ymwneud â'u meysydd penodol a chyflwynir eu cofnodion gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo.

**Polisi Cyfrif-wrth-Gefn Elusennol**
Mae SORP Elusennau 2000 yn mynnu bod y Llyfrgell yn datgelu ei pholisi ar Gyfrif-wrth-Gefn Elusennol. Cyfeirir at y polisi hwn a'i bwrpas yn Nodyn 1h y cyfrifon.

Polisi cyfrif-wrth-gefn y Llyfrgell gyda golwg ar ei chronfeydd cyhoeddus yw cydymffurfio gyda gofynion "Datganiad Memorandwm Ariannol a Rheoli" Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n nodi'r fframwaith ariannol y mae gofyn i'r Llyfrgell weithio dano.

Mae pedwar amcan i gronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell:
- Cyfrannu tuag at greu prosiect Profiad yr Ymwelydd
- Cyfrannu at gostau refeniw cynnal gwasanaethau'r Llyfrgell
- Cyfrannu at gefnogi Grant Prynu'r Llyfrgell
- Cefnogi'r broses o gaffael asedau cyfalaf penodol

Dim ond yn unol â thelerau'r cymynroddion penodol y ceir defnyddio cronfeydd cyfyngedig y Llyfrgell.

Ym mlwyddyn ariannol 2002/03, polisi buddsoddi'r Llyfrgell oedd cynnal lefel gymharol uchel o arian a bondiau yn y portffolio. Ar 31ain Mawrth 2003, y swm hwn oedd £1.283M (1af Ebrill £1.334M). Y prif reswm dros gronni'r arian hwn yw er mwyn talu'r cyfraniad a ragwelir tuag at gostau adeiladu prosiect Profiad yr Ymwelydd ac er mwyn osgoi hyd y bo modd y risg i hylifedd sydd ynghlwm wrth ddal stociau ac ecwitïau er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau y gwyddys amdanynt.

Mae buddsoddiadau cronfeydd preifat y Llyfrgell wedi cael eu rhannu'n ddau bortffolio ac yn 2002/03 rheolwyd y rhain gan Carr Sheppard Crosthwaite. Mae un portffolio, sy'n cynnwys arian a bondiau'n bennaf, yn cael ei reoli ar sail ymgynghorol, ac roedd y llall, sy'n cynnwys bondiau ac ecwitïau yn bennaf, yn cael ei reoli ar sail dewisol, yn unol â gofynion Deddf Buddsoddiad Ymddiriedolwyr 1961 ac yn fwy diweddar Deddf Ymddiriedolwyr 2000. Caiff perfformiad y portffolios ei fonitro a darparwyd adroddiad arnynt i Bwyllgor Adnoddau a Chynllunio'r Llyfrgell. Ar 31 Mawrth 2003, gwerth marchnad y portffolio ymgynghorol oedd £1.542m a £2.834m oedd gwerth y portffolio dewisol.

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Bancwyr | Banc y National Westminster, Aberystwyth |
| Cyfreithwyr | Edwards Geldard, Caerdydd |
| Archwilwyr Mewnol | Bentley Jennison, Caerdydd |
| Broceriaid Buddsoddi | Carr Sheppards Crosthwaite, Llundain |

**Archwilydd**
Archwilir y Cyfrifon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9 (8) Deddf Amgueddfeydd ac Orielau Cymru 1992.

| | |
|---|---|
| Andrew M W Green | Conrad L Bryant |
| LLYFRGELLYDD A SWYDDOG CYFRIFO | TRYSORYDD Y CYNGOR |

28 Awst 2003
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth SY23 3BU

## LLYS Y LLYWODRAETHWYR

**Llywydd**
R Brinley Jones, CBE, MA, DPhil, HonDLitt, FSA

**Is-Lywydd**
W J Phillips, DL, MA, LlB

**Trysorydd**
Conrad L Bryant, CPFA

**Aelodau Seneddol dros Gymru**
Yr Athro Hywel Francis MP

**Penodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru**
Sandra J Anstey, PhD, PGCE
J Elfed Evans, BScEcon
Katherine Hughes, BA, MSc, MRTPI, FRSA
Ian C Lovecy, MA, PhD, HonFLA

**Prifysgol Cymru**
Yr Athro Derec Llwyd Morgan, BA, DPhil, DLitt

**Sefydliadau Cyfansoddol Prifysgol Cymru**
**Prifysgol Cymru, Aberystwyth**
Yr Athro Derec Llwyd Morgan, BA, DPhil, DLitt

**Prifysgol Cymru Bangor**
Nigel Soane, MA, DipLib, MCLIP

**Prifysgol Cymru Caerdydd**
Yr Athro Sioned Davies, BA(Cymru), DPhil(Oxon)

**Prifysgol Cymru Abertawe**
Chris West, MA, DipLib, MCLIP

**Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan**
Dr Jane Cartwright, BA, PhD

**Prifysgol Morgannwg**
Jeremy Atkinson, BSc, MPhil, DipLib, MCLIP

**Colegau yng Nghymru a gydnabyddir drwy Ordinhâd fel Colegau'r Sector Cyhoeddus**
Geraint Thomas

**Cyd-bwyllgor Addysg Cymru**
Y Cynghorydd Peredur Eklund

**Corff Llywodraethol Coleg yr Iesu, Rhydychen**
Yr Athro T M O Charles-Edwards, MA, DPhil

**Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Hysbysrwydd (Cymru)**
Linda Tomos, BLib

**Penodwyd gan Fwrdd y Llyfrgell Brydeinig**
Dr Clive Field

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
5 Aelod

**Cyngor Sir Ceredigion**
Y Cynghorydd J Geraint Jenkins, MA, DScEcon, FSA, FMA

**Cyngor Tref Aberystwyth**
Y Cynghorydd Llinos Roberts-Young, BA

**Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru**
Huw Llewelyn Evans, BSc, DipLib, MCLIP

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
Yr Athro Hazel Walford Davies, BA, MA, PhD(Cymru),DipEd(Oxon)

**Cyngor Llyfrau Cymru**
Gwerfyl Pierce Jones, MA

**Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)**
Robert A Salisbury, LlB, Notari Cyhoeddus

**Cyngres yr Undebau Llafur yng Nghymru**
Geraint Davies

**Llys Llywodraethwyr Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**
Susan J Davies, BA, PhD, DAA

**Cymdeithas Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Nesta Lloyd, MA, DPhil, DAA

**Orielau Celf yng Nghymru**
Michael Freeman, BSc

**Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru**
John Morris

**Cyfetholwyd gan Lys y Llywodraethwyr**
Alun Creunant Davies, MA
Yr Athro Ceri Davies, BA, MPhil, DLitt
Y Tra Pharchedig J Wyn Evans, BA, BD, FSA, FRHistS
J Arfon Hughes, BArch (Cymru)
Yr Athro Elan Closs Stephens, CBE, MA
John Watkin, FRSA
Yr Athro Emeritus Deidre Beddoe

**Y CYNGOR**

**Llywydd**

R Brinley Jones, CBE, MA, DPhil, HonDLitt, FSA

**Is-Lywydd**

W J Phillips, DL, MA, LlB

**Trysorydd**

Conrad L Bryant, CPFA

**Penodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Katherine Hughes, BA, MSc, MRTPI, FRSA
Ian C Lovecy, MA, PhD, HonFCLIP
Sandra J Anstey, PhD, PGCE
J Elfed Evans, BScEcon

**Etholwyd gan Lys y Llywodraethwyr**

Gwerfyl Pierce Jones, MA
Yr Athro Elan Closs Stephens, CBE, MA
Alun Creunant Davies, MA
J Arfon Hughes, BArch (Cymru)
Yr Athro Derec Llwyd Morgan, BA, DPhil, DLitt
Yr Athro Ceri Davies, BA, MPhil, DLitt
John Watkin, FRSA

**Cyfetholwyd gan y Cyngor**

W Gwyn Williams, OBE, MInstAM, HonFCLIP, FRSA
Yr Athro Peter H Morgan, BA, PhD
Yr Athro D Hywel Roberts, MA, DipLib, MCLIP
Yr Athro Roger Earis, BA(Oxon), MA
WTR Pryce, BSc, MSc, PhD
David Meredith

## UWCH STAFF

**Llyfrgellydd**
Andrew M W Green, MA DipLib, MCLIP

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casgliadau**
Gwyn Jenkins, MA

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus**
W Rhidian M Griffiths, MA, MLitt, PhD, DipLib, MCLIP

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**
Mark W Mainwaring, MA, Cyfreithiwr

**Cyfarwyddwr Cyllid**
David H Michael, CPFA.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R LLYFRGELLYDD A'R CYNGOR

Dan Adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, mae'n ofynnol bod Cyngor Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn paratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chydsyniad y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i roi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon y Llyfrgell, mae'n ofynnol bod y Cyngor:

- glynu wrth y cyfarwyddyd cyfrifo a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion datgelu a chyfrifo perthnasol, a'u defnyddio'n gyson.

- yn gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a chall.

- yn datgan a gafodd safonau cyfrifo perthnasol eu defnyddio ac a ddilynwyd y datganiadau o arferion cymeradwy, gan ddatgelu unrhyw wyriadau sylweddol a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol.

- yn paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw onid yw'n amhriodol tybied y bydd y Llyfrgell yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi'r Llyfrgellydd yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Llyfrgell. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae ef yn atebol amdano a thros gadw cofnodion priodol, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, a nodau ac amcanion y Llyfrgell fel y'u pennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, tra'n diogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus y Llyfrgell yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi dan Drefn Gyfrifo'r Llywodraeth. Yr wyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd rheolaeth fewnol.

Lluniwyd y drefn reolaeth fewnol er mwyn rheoli yn hytrach nag er mwyn dileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd absoliwt y bydd yn effeithiol.

Mae'r drefn reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus gyda'r nod o nodi'r prif bethau a allai beryglu'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Llyfrgell, pwyso a mesur natur a maint y risgiau hyn; a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd ddarbodus. Dechreuodd y broses hon yn y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac mae hynny'n unol â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Mae'r Llyfrgell wedi nodi, dogfennu, asesu ac ystyried y risgiau strategol a gweithredol allweddol sy'n berthnasol i weithgareddau'r Llyfrgell. Ystyriwyd y rhain gan yr Uwch Dîm Rheoli a chymerwyd camau priodol i'w rheoli.

Mae'r Llyfrgell wedi rhoi ei rheoliadau ariannol ei hun ar glawr a disgwylir i bob aelod o'r staff lynu wrthynt er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gofynion "Memorandwm Ariannol a Datganiad Rheoli" y Cynulliad. Mae'r Llyfrgell hefyd wedi cynhyrchu "Polisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd"

Yn ystod 2002/03 :

- Diweddarodd pob un o adrannau'r Llyfrgell eu cofrestrau risg ym mis Medi ac ym mis Mawrth. Yn honno, nodwyd y risgiau penodol a'u rhoi yn eu trefn a'u hasesu yn ôl y tebygolrwydd iddynt ddigwydd a'u heffaith. Cyfunwyd y risgiau a nodwyd i gynhyrchu cofrestr risg gorfforaethol.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ystyried y gofrestr risg gorfforaethol ac wedi cytuno ar yr asesiad o'r risgiau hynny. Cytunwyd bod y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys yr holl risgiau sylweddol oedd yn wynebu'r Llyfrgell ar y pryd, ond roeddent hefyd yn cydnabod y byddai angen ei diweddaru'n rheolaidd.
- Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio adroddiadau ysgrifenedig ynghylch rheoli risg yn y Llyfrgell.

Contractiwr allanol sy'n darparu archwiliad mewnol y Llyfrgell a fydd yn cydymffurfio gyda'r safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth a bydd yn adrodd yn annibynnol i mi bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Llyfrgell ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bydd y Pwyllgor Archwilio'n derbyn copïau o bob adroddiad archwilio mewnol i'w hystyried ac yn monitro digonolrwydd ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion sy'n mynd i'r afael â risgiau a gwendidau rheolaeth fewnol. Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor Archwilio i Gyngor y Llyfrgell i'w cymeradwyo.

Seilir fy adolygiad ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ar waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn adrannau'r Llyfrgell sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a'r sylwadau a gafwyd gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill.

Andrew M W Green
Llyfrgellydd a Swyddog Cyfrifo
28 Awst 2003

**TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Rwy'n tystio i mi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 16 i 33 dan Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn ôl y confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd trwy ailwerthuso rhai asedau sefydlog, a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 19 i 21.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Llyfrgellydd a'r Archwiliwr**

Fel a ddisgrifir ar dudalen 11, Cyngor a Llyfrgellydd Llyfrgell Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â hi, ac am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Y Cyngor a'r Llyfrgellydd sy'n gyfrifol hefyd am baratoi cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Pennir fy nghyfrifoldebau i, fel archwiliwr annibynnol, gan statud a dilynaf gyfarwyddiadau'r Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn rhoi fy marn mewn adroddiad ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac wedi'u paratoi yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â hi, ac a yw'r adnoddau a wariwyd a'r adnoddau a wariwyd ymhob ffordd wedi'u defnyddio i'r dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Llyfrgell wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad ydwyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer f'archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwy'n ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau yn y datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 12 a 13 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Llyfrgell ag arweiniad y Trysorlys – 'Rheolaeth Gorfforaethol: datganiad ar reolaeth fewnol'. Adroddaf os nad yw'n cwrdd â'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson ag unrhyw wybodaeth arall yr wyf ym ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail y farn**

Cynhaliwyd f'archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gynhyrchir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor a'r Llyfrgellydd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a hefyd asesiad ynghylch a yw'r polisïau cyfrifo yn addas i amgylchiadau'r Llyfrgell, yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn cael eu datgelu'n ddigonol.

Bu i mi gynllunio a chynnal f'archwiliad er mwyn i mi dderbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i gael tystiolaeth ddigonol er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad, pa un a achoswyd hynny trwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu

afreoleidd-dra arall, ac ym mhob modd bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y bwriadwyd hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi arfarnu pa mor ddigonol yn gyffredinol yw cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2003 a'r adnoddau a dderbyniwyd a'r defnydd a wnaeth o'r adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â hi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a

- ymhob modd materol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru
5 Tachwedd 2003

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
3-4 Plas y Parc
Caerdydd
CF10 3DP

# DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2003

| | | CRONFEYDD CYHOEDDUS | | CRONFEYDD PREIFAT | | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | Anghyfyngedig £000 | Cyfyngedig £000 | Anghyfyngedig £000 | Cyfyngedig £000 | **Cyfanswm £000** | Cyfanswm £000 |
| **ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | | | | | | |
| Grantiau Derbyniadwy | 2 | 8,177 | 1,442 | - | - | **9,619** | 7,839 |
| Grantiau Eraill | 3 | 252 | 816 | - | - | **1,068** | 219 |
| Incwm Masnachu Arall | 4 | 389 | - | - | - | **389** | 328 |
| Incwm o Fuddsoddiad | 8 | - | - | 188 | 22 | **210** | 268 |
| Rhoddion a Chymynroddion | 8 | - | - | 81 | 2 | **83** | 281 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | **8,818** | **2,258** | **269** | **24** | **11,369** | 8,935 |
| **ADNODDAU A WARIWYD** | 5 | | | | | | |
| Gwariant Elusennol Uniongyrchol: | | | | | | | |
| Casglu a Chadw | | 3,260 | 378 | - | - | **3,638** | 5,233 |
| Marchnata, Arddangosfeydd ac Addysg | | 2,540 | 293 | - | - | **2,833** | 405 |
| Cadwraeth | | 821 | 91 | - | - | **912** | 658 |
| | | 6,621 | 762 | - | - | **7,383** | 6,296 |
| Cefnogaeth | | 1,239 | 151 | - | - | **1,390** | 832 |
| **Cyfanswm Gwariant Uniongyrchol** | | **7,860** | **913** | **-** | **-** | **8,773** | 7,128 |
| Gwariant arall: | | | | | | | |
| Codi Arian a Chyhoeddusrwydd | | 15 | - | - | - | **15** | 44 |
| Rheoli a Gweinyddu | | 1,103 | 97 | - | 1 | **1,201** | 860 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall** | | 1,118 | 97 | - | 1 | **1,216** | 904 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Wariwyd Cyn Costau Tybiannol** | | **8,978** | **1,010** | **-** | **1** | **9,989** | 8,032 |
| Cost Tybiannol Cyfalaf | | 2,678 | - | - | - | **2,678** | 2,567 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD GAN GYNNWYS COSTAU TYBIANNOL** | | **11,656** | **1,010** | **-** | **1** | **12,667** | 10,599 |
| **ADNODDAU NET A DDERBYNIWYD/ (WARIWYD) CYN TROSGLWYDDIADAU** | | (2,838) | 1,248 | 269 | 23 | **(1,298)** | (1,664) |
| Gwrthdroad cost tybiannol cyfalaf | | 2,678 | - | - | - | **2,678** | 2,567 |
| Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd | 8 | - | 687 | (687) | - | **-** | - |
| **ADNODDAU NET A DDERBYNIWYD/ (WARIWYD) AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **(160)** | **1,935** | **(418)** | **23** | **1,380** | 903 |
| Enillion/(colledion) wrth werthu asedau y bwriadwyd eu buddsoddi | 8 | - | - | (508) | (59) | **(567)** | 96 |
| Enillion/(colledion) nas gwireddwyd ar: | 8 | | | | | | |
| Buddsoddiadau | | - | - | (149) | (52) | **(201)** | (259) |
| Asedau Sefydlog Diriaethol | | - | 2,314 | - | - | **2,314** | 1,991 |
| **SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **(160)** | **4,249** | **(1,075)** | **(88)** | **2,926** | 2,731 |
| **CRONFEYDD YN WEDDILL A DDYGWYD YMLAEN AR 1 EBRILL** | 13 | (6) | 44,111 | 4,960 | 581 | **49,646** | 46,915 |
| **CRONFEYDD YN WEDDILL A A GARIWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH** | 13 | **(166)** | **48,360** | **3,885** | **493** | **52,572** | **49,646** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau. Mae'r holl enillion a'r colledion cydnabyddedig yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 33 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2003

| | Nodiadau | **£000** | **31ain Mawrth 2003 £000** | 31ain Mawrth 2002 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| Asedau Diriaethol | 7 | **46,916** | | 43,515 |
| Casgliadau | 7 | **1,212** | | 562 |
| Buddsoddiadau | 9 | **3,093** | | 4,206 |
| | | | **51,221** | 48,283 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Dyledwyr | 11 | **1,208** | | 627 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 10 | **1,283** | | 1,334 |
| Arian yn y Banc | | **-** | | - |
| | | **2,491** | | 1,961 |
| **CREDYDWYR** | | | | |
| Banc | | **(428)** | | (176) |
| Symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn | 12 | **(364)** | | (297) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | | **1,669** | 1,488 |
| **Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Chostau** | 19 | | **(348)** | (125) |
| **ASEDAU NET** | | | **52,572** | 49,646 |
| **CRONFEYDD** | 13 | | | |
| Cyhoeddus Anghyfyngedig | | | **(166)** | (6) |
| Cyhoeddus Cyfyngedig | | | **48,360** | 44,111 |
| Preifat Anghyfyngedig | | | **3,885** | 4,960 |
| Preifat Cyfyngedig | | | **493** | 581 |
| | | | **52,572** | 49,646 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 33 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

| | |
|---|---|
| Andrew MW Green | Conrad L Bryant |
| Llyfrgellydd a | Trysorydd y |
| Swyddog Cyfrifo | Cyngor |
| 28 Awst 2003 | 28 Awst 2003 |

## DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2003

| | Nodiadau | **2002/03** | 2001/02 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | £000 |
| Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol | 15 | **2,099** | 1,956 |
| Buddsoddiad Ariannol a Gwariant Cyfalaf | 16 | **(2,402)** | (861) |
| Rheoli'r adnoddau hylifol | 17 | **51** | (1,283) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Arian | | **(252)** | (188) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 33 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# NODIADAU I'R CYFRIFON AR 31 MAWRTH 2003

## 1. POLISÏAU CYFRIFO

(a) **Confensiynau Cyfrifo**

Paratoir y cyfrifon dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu i gynnwys yr ailbrisiad o'r asedau sefydlog, a chydymffurfio â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy "Cyfrifo gan Elusennau" a gyhoeddir gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr a'r Cyfarwyddyd Cyfrifo a roddir i'r Llyfrgell gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes byw.

Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifo a roddir neu a fabwysiadir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo cyn belled ag y bo'r gofynion hyn yn briodol. Dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon nid oes rhaid i'r Llyfrgell gynhyrchu crynodeb o'r cyfrif incwm a gwariant na nodyn cost hanesyddol ar wargedau na diffygion.

(b) **Adnoddau a Dderbyniwyd**

Cyfrifir am yr holl incwm pan gaiff ei ennill. Derbynnir Cymorth Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer costau cynnal a gwariant cyfalaf. Cydnabyddir pob Cymorth Grant yn y SOFA ym mlwyddyn ei dderbyn. Cyfrifir am roddion, cymynroddion ac incwm gwirfoddol pan gânt eu derbyn. Cyfrifir am drosglwyddiadau o gronfeydd preifat ar ôl rhoi ystyriaeth i symudiadau mewn cyfalaf gweithio.

(c) **Gwariant**

Dosberthir gwariant dan y prif gategorïau o wariant elusennol a gwariant arall yn hytrach na'r math o wariant, er mwy rhoi mwy o wybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Mae gwariant elusennol a chostau gweinyddu yn cynnwys gwariant uniongyrchol gan gynnwys costau staff uniongyrchol a briodolir i'r gweithgarwch. Pan na ellir priodoli costau'n uniongyrchol, maent wedi cael eu dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

Trosglwyddir arian o'r Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn i ategu'r nawdd Cymorth Grant.

Daw'r costau cyhoeddusrwydd a chodi arian yn sgil chwilio am gyfraniadau gwirfoddol i'r Llyfrgell ac wrth roi cyhoeddusrwydd i'r Llyfrgell.

Daw costau rheoli a gweinyddu yn sgil y gwaith sy'n gysylltiedig â rheoli asedau'r Llyfrgell, gweinyddu sefydliadol a chydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a statudol.

(d) **Pryniannau i’r Casgliad**

Cyn 1af Ebrill 2001, nid oedd casgliad y Llyfrgell wedi’i gyfalafu yn y fantolen. Rhoddwyd pryniannau i’r casgliad dan bennawd Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn ystod blwyddyn eu caffael. Yn unol â gofynion SORP Elusennau 2000, erbyn hyn cyfalefir pryniannau i’r casgliad ym mlwyddyn eu caffael pa bryd bynnag y bo modd sicrhau gwerth dibynadwy ar y farchnad.

(e) **Stociau**

Nid yw cost stociau o eitemau y gellir eu hailwerthu yn gost sylweddol ac mae wedi’i gynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn ystod blwyddyn eu caffael neu eu cynhyrchu.

(f) **Trosi arian tramor**

Mae asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor wedi cael eu trosi yn ôl y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Mae trosi arian tramor yn cael ei gofnodi ar y gyfradd sy'n bodoli ar ddyddiad y trosi.

(g) **Cost Tybiannol Cyfalaf**

Yn ôl cyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cynhwysir tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu'r gost cyfalaf a ddefnyddir, mewn costau gweithredol a'i gyfrifo yn ôl 6% o'r cyfalaf a ddefnyddir.

(h) **Cyfrifo Cronfeydd**

Mae cronfeydd cyhoeddus a phreifat anghyfyngedig ar gael i’w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor er mwyn hyrwyddo amcanion cyffredinol y Llyfrgell.

Mae’r cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig yn cynrychioli Grantiau Prynu a Chyfalaf a dderbyniwyd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r cronfeydd preifat cyfyngedig yn rhwym wrth gyfyngiadau penodol a osodir arnynt gan roddwyr neu gan bwrpas yr apêl.

(i) **Buddsoddiadau**

Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Fe fydd enillion a cholledion wrth werthu yn cael eu credydu neu eu tynnu o’r Datganiadau o Weithgareddau Ariannol. Fe fydd symudiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad hwnnw yn unol â’r Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer Cyfrifo i Elusennau.

j) **Asedau Sefydlog**

Dangosir Tir ac Adeiladau yn ôl eu gwerth ar y farchnad agored neu gost dibrisiedig eu hadnewyddu yn achos adeiladau arbenigol. Ceir prisiad allanol bob pum mlynedd a defnyddir mynegeion priodol i gynyddu’r prisiad hwnnw yn y blynyddoedd canol.

Dangosir offer, peiriannau a chyfarpar yn ôl eu cost adnewyddu gyfredol llai lwfans am ddibrisiant. Cynyddir y prisiadau'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion priodol. Cynhwysir yr enillion a'r colledion o ailbrisiadau yn y Datganiadau o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn a godant.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a ddefnyddir i leihau pob ased i'w werth gweddilliol tybiedig yn gyson dros ei oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yn ôl cyngor y priswyr. Mae oes gyfartalog fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | - hyd at 100 mlynedd |
| Offer, peiriannau a chyfarpar | - hyd at 18 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | - hyd at 3 mlynedd |

Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliadol
Ni ddibrisir Pryniannau i'r Casgliad

Y trothwy ar gyfer cyfalafu yw £5,000, ond mae offer Technoleg Gwybodaeth o dan y trothwy hwn yn cael ei gyfalafu hefyd lle mae'n ffurfio rhan o rwydwaith.

(k) **Costau Pensiwn**

Mae gan y Llyfrgell ei chynllun pensiwn ei hun sy'n darparu buddion sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Mae cyfraniadau i'r cynllun sy'n ofynnol gan yr actiwari yn cael eu rhoi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wedi'u gwasgaru dros oes waith y gweithwyr. Ceir darpariaeth briodol yn y cyfrifon hyn ar gyfer talu costau pensiynau sydd wedi cronni, ond nad ydynt yn ddyledus eto, i gronfa bensiwn y Llyfrgell.

(l) **Trethiant**

Cafodd y Llyfrgell statws elusennol gan Gyllid y Wlad. Bydd Treth ar Werth na ellir ei adfer sy'n codi wrth wario ar weithgareddau anfasnachol yn cael ei roi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu ei gyfalafu os yw'n gysylltiedig ag ased sefydlog.

## 2. GRANTIAU'R LLYWODRAETH

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Anghyfyngedig** | | |
| Cymorth Grant | **8,177** | 5,987 |
| **Cyfyngedig** | | |
| Grant Prynu | **611** | 576 |
| Cyfalaf | **831** | 1,276 |
| **Cyfanswm y grant a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru** | **9,619** | 7,839 |

## 3. GRANTIAU ERAILL

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Cyfyngedig** | | |
| Pryniannau | **14** | - |
| Cyfalaf (i) | **802** | - |
| | **816** | - |
| **Anghyfyngedig** | | |
| Eraill | **252** | 219 |
| | **1,068** | 219 |

(i) Grantiau a dderbyniwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i helpu gydag ariannu'r Cynllun Profiad yr Ymwelydd.

## 4. INCWM ARALL

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Anghyfyngedig** | | |
| Gwerthiannau | **243** | 187 |
| Llog Banc | **5** | 4 |
| Arlwyo | **111** | 86 |
| Amrywiol | **30** | 51 |
| | **389** | 328 |

## 5. CYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD CYN COSTAU TYBIANNOL

| | Staff Costau | Costau Union-gyrchol Eraill | Dibrisiant | **2002/03** **Cyfanswm** | 2001/02 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | **£000** | £000 |
| **Gwariant Elusennol** | | | | | |
| Casglu a Chadw | 2,555 | 705 | 378 | **3,638** | 5,233 |
| Marchnata, Arddangosfeydd ac Addysg | 1,984 | 556 | 293 | **2,833** | 405 |
| Cadwraeth | 618 | 203 | 91 | **912** | 658 |
| | **5,157** | **1,464** | **762** | **7,383** | 6,296 |
| Cefnogaeth | 1,021 | 218 | 151 | **1,390** | 832 |
| **Cyfanswm Gwariant Uniongyrchol** | **6,178** | **1,682** | **913** | **8,773** | 7,128 |
| Gwariant arall | | | | | |
| Codi Arian a Chyhoeddusrwydd | - | 15 | - | **15** | 44 |
| Rheoli a Gweinyddu | 662 | 442 | 97 | **1,201** | 860 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall** | **662** | **457** | **97** | **1,216** | 904 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd cyn Costau Tybiannol** | **6,840** | **2,139** | **1,010** | **9,989** | 8,032 |

Cynhwysir swm o £21,500 (2001-02 £21,500) yn y costau rheoli a gweinyddu ar gyfer gwaith archwilio allanol a £3,200 + TAW (2001-02 £3,200 + TAW) ar gyfer gwaith archwilio arall. Cynhwyswyd swm o £8,487 (2001-02 £14,734) hefyd ar gyfer cost gwaith archwilio mewnol gan Bentley Jennison.

## 6. COSTAU STAFF

(a) Cyfanswm Costau Staff

| | **2002/03** | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyflogau (i) | **5,925** | 4,205 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | **400** | 320 |
| Costau Pensiwn Eraill (ii) | **515** | 270 |
| | **6,840** | 4,795 |

(i) Cafwyd dyfarniad cyflog yn 2002/03, wedi'i ôl-ddyddio i Awst 2001, ac mae cyfanswm y gost hon wedi'i gynnwys yng nghyfrifon 2002/03. Amcangyfrif o'r gwerth ar gyfer 2001/02 yw £315,000.

(ii) Mae costau pensiwn eraill yn cynnwys pensiynau o £46,399 (£48,616 yn 2001/02) a dalwyd dan hen gynllun pensiwn

(b) Yn unol â Chod Greenbury a llythyrau Annwyl Swyddog Cyfrifo (GEN) 3/00 a 12/00 a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, mae'n ofynnol i'r Llyfrgell ddatgelu'r manylion canlynol ynghylch taliadau i uwch staff sydd â chyfrifoldeb am adrannau gwneud polisïau:-

**Taliadau i Uwch Reolwyr**

| Swydd | Enw | Oed-ran | Cyflog gros am y flwyddyn | Cynnydd gwirioneddol mewn Hawliau Pensiwn yn ystod y flwyddyn | Cyfanswm y Pensiwn Cronedig |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £ | £ | £ |
| Llyfrgellydd | Mr AMW Green | 50 | 61,051 | 703 | 3,078 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casgliadau | Mr G Jenkins | 53 | 56,400 | 1,840 | 18,138 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Mr MW Mainwaring | 47 | 57,022 | 1,198 | 7,017 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus | Mr Rh Griffiths | 48 | 54,148 | 2,049 | 13,097 |
| Cyfarwyddwr Cyllid | Mr DH Michael | 38 | 49,207 | 736 | 2,127 |

Talodd y Llyfrgell hefyd danysgrifiad proffesiynol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i Gymdeithas y Gyfraith, sef £820. Ni chafwyd unrhyw fuddion eraill nad oeddynt yn ariannol. Gyda golwg ar uwch staff ac eithrio'r Llyfrgellydd, mae'r taliad a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys dyfarniad cyflog wedi'i ôl-ddyddio i Awst 2001.

(c) Roedd cyflog y Llyfrgellydd yn cynnwys cyflog cyfunol o £57,048 (2001-02: £55,657) a dyfarniad heb ei gyfuno o £4,003 (2001-02: £3,421). Mae'r uwch staff eraill yn derbyn cyflog gros yn unig. Cyflogir y Llyfrgellydd ar gytundeb cyfnod penodol o bum mlynedd am y cyfnod o 1 Hydref 1998 i 30 Medi 2003. Mae'n aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Rhif cyfartalog misol y staff a gyflogid gan y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn oedd:

| | **2002/03** | 2001/02 |
|---|---|---|
| Swyddfa a Rheolaeth | **24** | 24 |
| Curadurol a Staff Arall | **242** | 217 |
| | **266** | 241 |

Nid yw aelodau'r Llys a'r Cyngor yn derbyn unrhyw dâl. Cyfanswm y costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch a wariwyd gan y Llyfrgell ar ei aelodau o'r pwyllgorau oedd £10,323 (2001-02: £12,133) a hawliwyd y rhain gan 22 aelod.

(d) **Cynllun Pensiwn**
Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn a ariennir sy'n gynllun buddion pensiwn diffiniedig sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol pensiynadwy adeg oedran ymddeol arferol o 60. Mae'r aelodau yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 6% o'u cyflog pensiynadwy. Bydd cyfraniadau'r aelodau sy'n gadael y cynllun ac sydd wedi cyfrannu am lai na 2 flynedd yn cael eu had-dalu iddynt. Mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80$^{fed}$ o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae swm un taliad sy'n cyfateb i bensiwn 3 blynedd yn daladwy adeg ymddeol. Ar farwolaeth yr aelod, mae'r pensiwn yn daladwy i'r cymar byw ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Ar farwolaeth yr aelod mewn gwaith, mae'r cynllun yn talu budd un taliad. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achos o waeledd difrifol.
Mae asedau'r Cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau'r Llyfrgell ac fe'u buddsoddir gyda Prudential Pensions Cyf. mewn Cronfa a Reolir. Cafwyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2002. Yn dilyn adroddiad yr actiwari, cynyddwyd cyfraniad y Llyfrgell i 9.4% o 1 Ebrill 2002, gyda 6% pellach o dâl pensiynadwy oddi wrth staff. Cyhoeddir y datganiad actiwaraidd yng Nghyfrifon Blynyddol Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
Cost y pensiwn am y cyfnod oedd £468,072 (2001-02 £221,116). Dangosai'r prisiad actiwaraidd diweddaraf fod gwerth asedau'r Cynllun ar y farchnad yn £24.450m ac nad oedd gwerth actiwaraidd yr asedau hyn yn fwy na 105% o werth rhwymedigaethau'r Cynllun.

(e) **Cofrestr Rhoddion**
Mae'r Llyfrgell yn cynnal cofrestr rhoddion hefyd. Nid yw unrhyw eitem a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried yn ddiddordeb sylweddol ar gyfer y datganiadau ariannol hyn.

## 7. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

| | Adeiladau a Thir rhydd-ddaliadol £000 | Offer, Ffitiadau a Chyfarpar £000 | Is-gyfanswm £000 | Casgliadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost a Phrisiad | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 42,070 | 2,991 | 45,061 | 562 | 45,623 |
| Ychwanegiadau | 1,360 | 737 | 2,097 | 650 | 2,747 |
| | 2,314 | - | 2,314 | - | 2,314 |
| Ar 31 Mawrth 2003 | 45,744 | 3,728 | 49,472 | 1,212 | 50,684 |
| Dibrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | - | 1,546 | 1,546 | - | 1,546 |
| a godwyd ar gyfer y flwyddyn | 506 | 504 | 1,010 | - | 1,010 |
| Ar 31 Mawrth 2003 | 506 | 2,050 | 2,556 | - | 2,556 |
| Gwerth net ar y llyfrau | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **45,238** | **1,678** | **46,916** | **1,212** | **48,128** |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 42,070 | 1,445 | 43,515 | 562 | 44,077 |

Cafodd adeiladau, offer a thir rhydd-ddaliadol y Llyfrgell sydd â Gwerth Llyfr Net o £5,000 neu fwy eu prisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2002 gan Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig, yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Prisiwyd tir ac adeiladau ar sail eu

"gwerth ar y farchnad agored", "gwerth defnydd presennol" neu "gost ddibrisiedig adnewyddu". Prisiwyd yr offer ar sail ei werth i'r Llyfrgell. Cyfalefir pryniannau i'r casgliad ar sail cost hanesyddol. Defnyddiwyd pob ased sefydlog i hyrwyddo gweithgareddau elusennol y Llyfrgell.

## 8. CRONFEYDD PREIFAT

| | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | **Cyfanswm 2002/03** | Cyfanswm 2001/02 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | **£000** | £000 |
| **Adnoddau a Dderbyniwyd** | | | | |
| Cymynroddion | - | - | **-** | 169 |
| Stad Prifysgol Cymru | 81 | - | **81** | 110 |
| Arall | - | 2 | **2** | 2 |
| | 81 | 2 | **83** | 281 |
| Llog derbyniadwy | 188 | 22 | **210** | 268 |
| Elw / (colled) o werthu Buddsoddiadau | (508) | (59) | **(567)** | 96 |
| | (320) | (37) | **(357)** | 364 |
| **Cyfanswm** | (239) | (35) | **(274)** | 645 |
| **Adnoddau a Wariwyd** | | | | |
| Casglu a Storio | - | - | **-** | 231 |
| Marchnata, arddangosfeydd ac addysg | - | - | **-** | 28 |
| Cadwraeth | - | - | **-** | 31 |
| Codi arian | - | - | **-** | 1 |
| Rheolaeth | - | 1 | **1** | 2 |
| **Cyfanswm** | - | 1 | **1** | 293 |
| **Adnoddau Net a Dderbyniwyd (Wariwyd)** | (239) | (36) | **(275)** | 352 |
| Trosglwyddo i/o'r Cronfeydd Cyhoeddus | (687) | - | **(687)** | (11) |
| | (926) | (36) | **(962)** | 341 |
| Colled nas gwireddwyd ar ailbrisio buddsoddiadau | (149) | (52) | **(201)** | (259) |
| **Symudiad Net mewn Cronfeydd Preifat yn ystod y flwyddyn** | (1,075) | (88) | **(1,163)** | 82 |
| Dygwyd Ymlaen ar 1 Ebrill | 4,960 | 581 | **5,541** | 5,459 |
| **Cariwyd Ymlaen ar 31 Mawrth** | 3,885 | 493 | **4,378** | 5,541 |

Dangosir dadansoddiad o'r cronfeydd unigol ar dudalen 34.

## 9. BUDDSODDIADAU

| | 2002/03 | | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|
| | **Ymgynghorol** | **Dewisol** | **Total** | |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill | 1,017 | 3,189 | **4,206** | 5,407 |
| Pryniannau ar bris cost | | 2,689 | **2,689** | 1,646 |
| Llai: Enillion o Werthu | (767) | (2,267) | **(3,034)** | (2,684) |
| Elw /(Colled) adeg eu Gwerthu | 1 | (568) | **(567)** | 96 |
| Colled nas gwireddwyd ar ailbrisiad | 8 | (209) | **(201)** | (259) |
| **Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth** | **259** | **2,834** | **3,093** | 4,206 |

Cost hanesyddol y Buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2003 oedd £3.854m (2001-02 £4.765m). Ymdrinnir â'r buddsoddiadau a restrir ar y Gyfnewidfa Stoc yn Llundain. Giltiau'r Trysorlys yw 28% o'r portffolio. Bondiau tramor gyda Banc Buddsoddi Ewrop yw 6% ohono, a hynny ar 31 Mawrth 2003.
Nid oes unrhyw fuddsoddiad arall yn fwy na 5% o'r portffolio. O'r gwerth ar y farchnad o £3.093m, roedd £1.493m yn cael ei ddal mewn buddsoddiadau ag amrediad mwy cyfyng, ac roedd £1.6m yn cael ei ddal mewn amrediad ehangach.

## 10. ASEDAU CYFREDOL – BUDDSODDIADAU

| | **31ain Mawrth 2003** | 31ain Mawrth 2002 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cyfrif Arian Adnau'r Broceriaid | **1,283** | 1,334 |
| | **1,283** | 1,334 |

Y gyfradd llog a oedd yn daladwy ar Gyfrif Arian Adnau'r Broceriaid ar 31ain Mawrth 2003 oedd 2.75%.

## 11. DYLEDWYR - sy'n ddyledus mewn blwyddyn

| | **31ain Mawrth 2003** | 31ain Mawrth 2002 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Dyledwyr Masnach | **546** | 317 |
| Rhagdaliadau ac Incwm Cronedig | **141** | 117 |
| Arall | **487** | 64 |
| Rhagdaliad y Gronfa Bensiwn | **-** | 95 |
| Cronfeydd Preifat | **34** | 34 |
| | **1,208** | 627 |

## 12. CREDYDWYR - sy'n ddyledus mewn blwyddyn

| | 31ain Mawrth 2003 £000 | 31ain Mawrth 2002 £000 |
|---|---|---|
| Credydwyr Masnach | **182** | 160 |
| Credydwyr eraill | **23** | 21 |
| Croniadau | **80** | 25 |
| Treth ac Yswiriant Gwladol | **79** | 91 |
| | **364** | 297 |

## 13. SYMUDIADAU YN Y DATGANIAD CRONFEYDD

| | Ar 1af Ebrill 2002 | Adnoddau a Dderbyniwyd | Adnoddau a Wariwyd | Symudiadau Eraill yn y Flwyddyn | **Ar 31 Mawrth 2003** |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| **CRONFEYDD CYHOEDDUS** | | | | | |
| Cyfyngedig - Cyfalaf | 43,536 | 1,633 | (1,010) | 3,001 | **47,160** |
| - Prynu | 575 | 625 | - | - | **1,200** |
| Cyfanswm Cyfyngedig | 44,111 | 2,258 | (1,010) | 3,001 | **48,360** |
| Anghyfyngedig | (6) | 8,818 | (11,656) | 2,678 | **(166)** |
| Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus | 44,105 | 11,076 | (12,666) | 5,679 | **48,194** |
| **CRONFEYDD PREIFAT** | | | | | |
| Cyfyngedig | 581 | 24 | (1) | (111) | **493** |
| Anghyfyngedig | 4,960 | 269 | - | (1,344) | **3,885** |
| Cyfanswm y Cronfeydd Preifat | 5,541 | 293 | (1) | (1,455) | **4,378** |
| **CYFANSWM** | **49,646** | **11,369** | **(12,667)** | **4,224** | **52,572** |

## 14. RHWYMEDIGAETHAU CYFALAF

Mae gan y Llyfrgell Raglen Gyfalaf Dreigl o bedair blynedd. Ar ddyddiad y fantolen, roedd y rhwymedigaethau a oedd yn ddyledus fel a ganlyn:

| | 31ain Mawrth 2003 £000 | 31ain Mawrth 2002 £000 |
|---|---|---|
| Wedi'u contractio | **1,568** | 1,566 |
| | **1,568** | 1,566 |

Rhagwelir y bydd yr holl rwymedigaethau a bennwyd ar 31 Mawrth 2003 yn cael eu cyflawni yn ystod blwyddyn ariannol 2003/04.

## 15. CYSONI NEWIDIADAU MEWN ADNODDAU I'R LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

| | **2002/03** | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Adnoddau net a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol | **1,380** | 903 |
| Dibrisiant | **1,010** | 1,322 |
| Cynnydd o ran dyledwyr | **(581)** | (337) |
| Cynnydd o ran credydwyr a darpariaethau | **290** | 68 |
| | **2,099** | 1,956 |

## 16. GWARIANT CYFALAF A BUDDSODDI ARIANNOL

| | **2002/03** | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Taliadau i brynu asedau sefydlog diriaethol | **(2,097)** | (1,337) |
| Taliadau i brynu casgliadau | **(650)** | (562) |
| Taliadau i brynu buddsoddiadau | **(2,689)** | (1,646) |
| Derbyniadau o werthu buddsoddiadau | **3,034** | 2,684 |
| | **(2,402)** | (861) |

## 17. CYSONI LLIF ARIAN NET I'R SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD NET

| | **2002/03** | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | **1,158** | 63 |
| All-lif Arian Net | **(252)** | (188) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) ym muddsoddiadau'r asedau cyfredol | **(51)** | 1,283 |
| Cronfeydd Net ar 31 Mawrth | **855** | 1,158 |

## 18. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Llyfrgell nawdd gan y Cynulliad ar ffurf Cymorth Grant, Grantiau Pwrcasu a Chyfalaf.

Derbyniodd y Llyfrgell £22,000 yn 2002/03 (2001/02: £21,000) gan Brifysgol Cymru i ddarparu mewnbwn ar gyfer S4C i'w Huned Gydymffurfio wedi'i seilio ar ymarfer monitro parhaus a chyngor ymgynghori annibynnol. Mae Mrs Elan Closs Stephens sy'n aelod o Gyngor y Llyfrgell a Llys y Llywodraethwyr yn Uwch Ddarlithydd yn y Brifysgol.

Mae'r Llyfrgellydd, Mr Andrew MW Green, hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Casglu'r Tlysau Cyf. Derbyniodd y Llyfrgell gyfanswm o £171,331 gan y cwmni hwn yn bennaf i ad-dalu costau cyflogau a chost digideiddio delweddau.

## 19. DARPARIAETHAU

| | **Darpariaeth ar gyfer Costau Pensiwn yn unol â SSAP 24** £000 |
|---|---|
| 1 Ebrill 2002 | 125 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 223 |
| 31ain Mawrth 2003 | **348** |

## 20. DEILLIADAU – FRS13

Nid oes gan y Llyfrgell ddim benthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei gofynion ariannol ac felly nid yw'n agored i risgiau o ran hylifedd. Datgelir yr unig adnau sylweddol yn nodyn 10, ac mae pob ased a rhwymedigaeth sylweddol mewn sterling, felly, nid ydynt yn agored i risg sy'n gysylltiedig â'r gyfradd llog neu ag arian cyfred. Er bod y Fantolen yn dangos bod gan y banc Orddrafft o £0.428M, y sefyllfa yn y llyfr arian parod yw hyn ac nid oedd gorddrafft ar y cyfrif mewn gwirionedd. Y prif resymau dros y gorddrafft a ddangosir yn y llyfr arian parod yw bod cynnydd yn y dyledwyr i £1.208M (2001/02 £0.627M) sydd yn ganlyniad i'r dyledwyr grantiau ar gyfer cynllun Profiad yr Ymwelydd.

Yn 2002/03, deilliodd £9.619m neu 85% o incwm y Llyfrgell o Gymorth Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (2001/02 £7.839m neu 88%). Daw'r gweddill, £1,737m neu 15% (2001/02 £1.096m neu 12%) o incwm ar gronfeydd preifat y Llyfrgell, o weithgareddau masnachu ac o grantiau gan gyrff eraill, fel a ddatgelwyd yn Nodyn 3 y cyfrifon hyn.

## 21. DATGELIAD FRS 17

Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn y cyfrifon hyn ar gyfer cost pensiynau'n cydymffurfio gyda'r safon cyfrifo cost pensiynau cyfredol, sef Safon Ymarfer Cyfrifo Datganiadau 24. Cyhoeddwyd safon cyfrifo cost pensiynau newydd, sef FRS 17, ond ni fydd hwnnw ar waith yn llwyr tan 2005/06. Dechreuodd y cyfnod trosiannol ar gyfer mabwysiadu FRS17 yn 2001/02 a bydd y gofynion datgelu'n mynd yn fwy a mwy manwl nes iddynt fod ar waith yn llwyr. Yn unol â'r gofynion datgelu ar gyfer 2002/03, rhaid i'r Llyfrgell gynnwys gwybodaeth ar ffurf mantolen agor a chau a gwybodaeth ar ffurf datganiad perfformiad.

Mae gan y Llyfrgell gynllun buddion diffiniedig gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Mae'r aelodau'n talu cyfraniadau ar gyfradd o 6% o'u cyflog pensiynadwy.

Gwnaeth yr actiwari ei brisiad llawn diweddaraf ar 31ain Mawrth 2002. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2003, bu'r Llyfrgell yn cyfrannu i'r Cynllun ar gyfradd o 9.4% o gyflogau pensiynadwy.

**Cyflwyno'r Fantolen**

| | 31 Mawrth 2003<br>£m | 31 Mawrth 2002<br>£m |
|---|---|---|
| Asedau Net ac eithrio'r ased pensiwn | 52.57 | 49.65 |
| Ased pensiwn | (7.02) | 5.7 |
| Asedau Net gan gynnwys yr ased pensiwn | 45.55 | 55.35 |

**Tybiaethau Ariannol**

Dyma'r tybiaethau ariannol a wnaethpwyd er mwyn ymateb i ofynion datgelu'r FRS17:

| | 31 Mawrth 2003<br>% y flwyddyn | 31 Mawrth 2002<br>% y flwyddyn |
|---|---|---|
| Chwyddiant Prisiau | 2.5 | 2.5 |
| Cyfradd cynnydd cyflogau | 4.5 | 4.5 |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau a delir | 2.5 | 2.5 |
| Cyfradd cynnydd ar gyfer pensiynwyr gohiriedig | 2.5 | 2.5 |
| Cyfradd gostyngiad | 5.25 | 5.75 |

**Gwerth Marchnad Asedau a Chyfradd Ddisgwyliedig yr Elw ar Asedau**

| | 31 Mawrth 2003 | | 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwerth Teg<br>£m | **Cyfradd Ddisgwyliedig yr Elw**<br>**% y flwyddyn** | Gwerth Teg<br>£m | **Cyfradd Ddisgwyliedig yr Elw**<br>**% y flwyddyn** |
| Ecwitïau | 14.68 | 8.6 | 19.37 | 8.4 |
| Bondiau | 3.20 | 5.2 | 3.63 | 5.7 |
| Eiddo | 0.80 | 6.9 | 0.94 | 7.1 |
| Eraill | 0.42 | 4.0 | 0.51 | 4.5 |
| **Cyfanswm gwerth yr asedau** | **19.10** | **7.9** | **24.45** | **7.9** |
| **Gwerth presennol rwymedigaethau'r Cynllun** | **(26.12)** | | **(18.75)** | |
| **Asedion pensiwn net** | **(7.02)** | | **5.7** | |

**Dadansoddiad o'r Swm i'w Briodoli i Adnoddau a Wariwyd**

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003<br>£m |
|---|---|
| Cost y gwasanaeth presennol | 0.81 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.00 |
| Gwarged nas gwelwyd gynt wedi'i thynnu o gostau'r gwasanaeth yn y gorffennol | 0.00 |
| **Cyfanswm a briodolir i'r Datganiad Gweithgareddau Ariannol** | **0.81** |

**Dadansoddiad o'r enillion net ar y cynllun pensiwn**

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 £m |
|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 1.05 |
| Elw disgwyliedig ar asedau yn y cynllun pensiwn | (1.92) |
| Enillion net | (0.87) |

**Dadansoddiad o'r Symiau a Gydnabyddir yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol.**

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 £m |
|---|---|
| (Enillion) colledion ar asedau | 7.20 |
| (Enillion) colledion a brofwyd ar rwymedigaethau | 3.68 |
| (Enillion) colledion ar newid tybiaethau (ariannol a demograffaidd) | 2.37 |
| **Cyfanswm (enillion) colledion a gydnabyddir** | **13.25** |

**Hanes o Enillion a Cholledion a brofwyd (Cyfnod Cyfredol yn Unig)**

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 |
|---|---|
| (Enillion) colledion ar asedau'r cynllun | |
| Swm (£M) | 7.20 |
| % o asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 37.70% |
| (Enillion) colledion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun | |
| Swm (£M) | |
| % o asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 3.68<br>14.09% |
| Cyfanswm (enillion) colledion actiwaraidd a gydnabyddir yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol | |
| Swm (£M) | 13.25 |
| % o asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | 50.73% |

**Cysoniad i'r Fantolen**

| | 31 Mawrth 2003 £m | 31 Mawrth 2002 £m |
|---|---|---|
| Gwerth Marchnad asedau'r cynllun | 19.10 | 24.45 |
| Gwerth actiwaraidd rhwymedigaethau'r Cynllun | (26.12) | (18.75) |
| Gwarged (diffyg) yn y Cynllun | £(7.02)m | £5.70m |
| Gwarged Anadferadwy | 0.00 | 0.00 |
| Ased pensiynau (rhwymedigaeth) a gydnabyddir yn y fantolen | £(7.02)m | £5.70m |

**Dadansoddi'r Symudiadau yn y Gwarged (Diffyg) yn y Cynllun yn ystod y Flwyddyn**

| | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003** |
|---|---|
| | **£m** |
| Gwarged (diffyg) yn y cynllun ddechrau'r flwyddyn | 5.70 |
| **Symudiad yn ystod y flwyddyn** : | |
| Cyfraniadau a dalwyd | 0.47 |
| Cost y gwasanaeth presennol | (0.81) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.00 |
| Cost setlo | 0.00 |
| Cost terfynu | 0.00 |
| Cyfradd net | 0.87 |
| Enillion (colledion) actiwaraidd | (13.25) |
| **Gwarged (diffyg) yn y cynllun ddechrau'r flwyddyn** | **(7.02)** |

**22. PRYDLESI**

Yr ymrwymiad blynyddol dan brydlesi cyfredol yw £14,687 ar gyfer prydles sy'n dod i ben ymhen blwyddyn. Mae'r swm hwn yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol.

**23. GWARIANT AFREOLAIDD**

Yn ystod 2002/03 derbyniodd y Llyfrgell gadarnhad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na fyddai'n rhoi cymeradwyaeth am yn ôl ar gyfer talu £31,193 a wnaethpwyd yn ystod 1999/2000 ar gyfer offer sganio digidol arbenigol.

Ceisiwyd cymeradwyaeth y Cynulliad gan nad oedd y broses dendro ar gyfer y pryniant hwn yn cydymffurfio gyda gofynion Memorandwm Ariannol y Llyfrgell ar gyfer prynu nwyddau gwerth dros £25,000. Felly, ystyrir y gwariant hwn yn wariant afreolaidd, ond nid oedd ond yn cynrychioli 0.43 y cant o gyfanswm gwariant y Llyfrgell ar gyfer y flwyddyn honno. Felly, mae'r Llyfrgell yn fodlon iddo sicrhau gwerth da am arian drwy gyfrwng y contract hwn.

| CRONFA<br>*FUND* | MEWN LLAW<br>*FUND BALANCE 1/4/02* | BUDDSODDWYD<br>*INVESTED 1/4/02* | BANC<br>*BANK 1/4/02* | INCWM<br>*INCOME* | GWARIANT<br>*EXP.* | CYMYNRODD<br>*LEGACIES* | LLOG BUDDSODDI-ADAU<br>*INV. INTEREST* | ELW AR WERTHIANT BUDDSODDI-ADAU<br>*PROFIT FROM SALE OF INV.* | MEWN LLAW<br>*FUND BALANCE 31/3/03* | BUDDSODDWYD<br>*INVESTED 31/3/03* | ERAILL<br>*OTHER BALANCES 31/3/03* | GWERTH BUDDSODDIA-DAU AR Y FARCHNAD<br>*MARKET VALUE 31/3/03* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) | (£) |
| CYMYNRODDION/*BEQUESTS*: | | | | | | | | | | | | |
| A.E. & M.E. OWEN | 46,149.14 | 46,094.09 | 460.02 | | | | 1,581.23 | - 4,285.78 | 43,444.59 | 41,595.37 | 710.05 | 35,436 |
| PENRHOS FACH | 65,031.71 | 64,954.13 | 648.25 | 1,800.00 | 411.25 | | 2,228.22 | - 6,039.37 | 62,609.31 | 59,944.35 | 1023.27 | 51,068 |
| D.M. PHILLIPS | 449,546.44 | 449,010.18 | 4,481.16 | | | | 15,403.05 | - 41,748.49 | 423,201.00 | 405,187.46 | 6916.68 | 345,190 |
| W. ELWYN DAVIES | 19,007.38 | 18,984.71 | 189.47 | | | | 651.26 | - 1,765.18 | 17,893.46 | 17,131.83 | 292.45 | 14,595 |
| LADY PARRY-WILLIAMS | 20,825.33 | 20,800.48 | 207.59 | | | | 713.55 | - 1,934.01 | 19,604.87 | 18,770.39 | 320.42 | 15,991 |
| NOEL JARMAN | 36,593.30 | 36,549.65 | 364.77 | | | | 1,253.82 | - 3,398.35 | 34,448.77 | 32,982.46 | 563.02 | 28,099 |
| GWYNETH LLOYD | 1,062.68 | 1,061.41 | 10.59 | | | | 36.41 | - 98.69 | 1,000.40 | 957.82 | 16.35 | 816 |
| **IS-CYFANSWM/*SUB TOTAL*** | 638,215.98 | 637,454.65 | 6,361.85 | 1,800.00 | 411.25 | - | 21,867.53 | - 59,269.86 | 602,202.40 | 576,569.67 | 9,842.23 | 491,194.69 |
| SYR JOHN WILLIAMS | 953,203.01 | 952,065.95 | 9,501.70 | | 81,232.25 | | 32,660.10 | - 88,522.09 | 816,108.77 | 781,371.12 | 13338.26 | 665,670 |
| J.B. WILLIAMS | 127,347.97 | 127,196.06 | 1,269.43 | | 10,852.63 | | 4,363.39 | - 11,826.56 | 109,032.17 | 104,391.22 | 1781.99 | 88,934 |
| G.J. MORRIS | 29,904.78 | 29,869.10 | 298.10 | | 2,548.49 | | 1,024.64 | - 2,777.20 | 25,603.73 | 24,513.91 | 418.46 | 20,884 |
| T.A. LLOYD | 71,202.00 | 71,117.07 | 709.75 | | 6,067.86 | | 2,439.63 | - 6,612.39 | 60,961.39 | 58,366.57 | 996.34 | 49,724 |
| G.EVANS | 574,432.76 | 573,747.52 | 5,726.05 | | 48,953.34 | | 19,682.09 | - 53,346.44 | 491,815.08 | 470,880.98 | 8038.09 | 401,156 |
| T.J. & J. EVANS | 31,743.44 | 31,705.57 | 316.42 | | 2,705.19 | | 1,087.64 | - 2,947.95 | 27,177.95 | 26,021.12 | 444.19 | 22,168 |
| G. DAVIES | 16,091.16 | 16,071.96 | 160.40 | | 1,371.29 | | 551.34 | - 1,494.35 | 13,776.85 | 13,190.44 | 225.17 | 11,237 |
| M. WILLIAMS | 161,730.84 | 161,537.91 | 1,612.16 | | 13,782.75 | | 5,541.47 | - 15,019.62 | 138,469.93 | 132,575.96 | 2263.12 | 112,945 |
| S.P.M. GRIFFITHS | 78,062.13 | 77,969.01 | 778.14 | | 6,652.48 | | 2,674.68 | - 7,249.48 | 66,834.86 | 63,990.04 | 1092.33 | 54,515 |
| E.A. DAVID | 22,036.64 | 22,010.35 | 219.67 | | 1,877.97 | | 755.05 | - 2,046.50 | 18,867.22 | 18,064.14 | 308.36 | 15,389 |
| G.N.M. DAVIES | 24,290.49 | 24,261.52 | 242.13 | | 2,070.04 | | 832.28 | - 2,255.81 | 20,796.91 | 19,911.69 | 339.90 | 16,963 |
| J.B. DAVIES | 100,653.01 | 100,532.94 | 1,003.33 | | 8,577.68 | | 3,448.73 | - 9,347.45 | 86,176.61 | 82,508.50 | 1408.45 | 70,291 |
| CYDWEL A. OWEN | 11,343.05 | 11,329.52 | 113.07 | | 966.66 | | 388.65 | - 1,053.41 | 9,711.64 | 9,298.26 | 158.72 | 7,921 |
| W.C. WILLIAM JAMES | 557,629.35 | 556,964.16 | 5,558.55 | | 47,521.34 | | 19,106.35 | - 51,785.94 | 477,428.42 | 457,106.69 | 7802.96 | 389,421 |
| GLYN ASHTON | 12,436.61 | 12,421.78 | 123.97 | | 1,059.85 | | 426.12 | - 1,154.96 | 10,647.92 | 10,194.69 | 174.03 | 8,685 |
| JOHN CONWAY DAVIES | 40,769.44 | 40,720.80 | 406.40 | | 3,474.38 | | 1,396.90 | - 3,786.18 | 34,905.78 | 33,420.02 | 570.49 | 28,471 |
| G.I. HASSALL | 8,440.62 | 8,430.56 | 84.14 | | 719.31 | | 289.21 | - 783.86 | 7,226.65 | 6,919.05 | 118.11 | 5,895 |
| E.M. FRISBY | 15,742.93 | 15,724.15 | 156.93 | | 1,341.62 | | 539.41 | - 1,462.01 | 13,478.71 | 12,904.99 | 220.29 | 10,994 |
| TRYPHENA LEWIS | 155.80 | 155.62 | 1.55 | | 13.28 | | 5.34 | - 14.47 | 133.39 | 127.71 | 2.18 | 109 |
| D. HOWELL EVANS | 2,248.12 | 2,245.44 | 22.41 | | 191.59 | | 77.03 | - 208.78 | 1,924.78 | 1,842.86 | 31.46 | 1,570 |
| A. HUDSON WILLIAMS | 6,671.08 | 6,663.12 | 66.50 | | 568.51 | | 228.57 | - 619.53 | 5,711.61 | 5,468.50 | 93.35 | 4,659 |
| BRONWEN THOMAS | 6,364.15 | 6,356.56 | 63.44 | | 542.35 | | 218.06 | - 591.03 | 5,448.83 | 5,216.90 | 89.05 | 4,444 |
| MARY M. WILLIAMS | 407,465.80 | 406,979.74 | 4,061.69 | | 34,724.36 | | 13,961.22 | - 37,840.55 | 348,862.11 | 334,012.80 | 5701.71 | 284,554 |
| SARAH E. STEPHENS | 40,434.31 | 40,386.07 | 403.06 | | 3,445.82 | | 1,385.42 | - 3,755.05 | 34,618.85 | 33,145.30 | 565.80 | 28,237 |
| JANE D BLINN | 3,136.18 | 3,132.44 | 31.26 | | 267.27 | | 107.46 | - 291.25 | 2,685.12 | 2,570.83 | 43.88 | 2,190 |
| SARAH M D PRICE | 18,210.24 | 18,188.52 | 181.52 | | 1,551.88 | | 623.95 | - 1,691.15 | 15,591.16 | 14,927.52 | 254.82 | 12,717 |
| MRS M A THOMAS | 9,316.61 | 9,305.50 | 92.87 | | 793.96 | | 319.22 | - 865.22 | 7,976.65 | 7,637.12 | 130.37 | 6,506 |
| DR PETER HUMPHREYS | 1,011.81 | 1,010.60 | 10.09 | | 86.23 | | 34.67 | - 93.96 | 866.29 | 829.41 | 14.16 | 707 |
| MRS M R MORRIS | 4,029.42 | 4,024.61 | 40.17 | | 343.39 | | 138.06 | - 374.20 | 3,449.89 | 3,303.05 | 56.38 | 2,814 |
| MISS GWENDOLEN EDWARDS | 109,382.52 | 109,252.04 | 1,090.34 | | 9,321.61 | | 3,747.83 | - 10,158.14 | 93,650.60 | 89,664.36 | 1530.60 | 76,387 |
| **IS-CYFANSWM/*SUB TOTAL*** | 4,083,702.25 | 4,078,830.84 | 40,707.07 | 1,800.00 | 294,036.65 | - | 139,922.06 | - 379,245.39 | 3,552,142.28 | 3,400,945.42 | 58,055.25 | 2,897,353.82 |
| GENERAL | 26,393.80 | 26,362.33 | 263.10 | 100.00 | 2,249.29 | | 904.35 | - 2,451.14 | 22,697.72 | 21,731.59 | 370.97 | 18,514 |
| BRYNHIR | 205,718.39 | 205,472.99 | 2,050.64 | | 17,531.38 | | 7,048.64 | - 19,104.66 | 176,130.98 | 168,633.97 | 2878.64 | 143,664 |
| HENGWRT | 276,174.72 | 275,845.27 | 2,752.96 | | 23,535.69 | | 9,462.72 | - 25,647.80 | 236,453.94 | 226,389.29 | 3864.54 | 192,867 |
| APPEAL | 177,497.02 | 177,285.28 | 1,769.32 | 185.00 | 15,126.35 | | 6,081.67 | - 16,483.80 | 152,153.55 | 145,677.13 | 2486.76 | 124,106 |
| **CYFANSWM CYMYNRODDION AC ERAILL/ *TOTAL BEQUESTS & OTHER ACCOUNTS*** | 4,769,486.18 | 4,763,796.71 | 47,543.08 | 2,085.00 | 352,479.36 | - | 163,419.44 | - 442,932.79 | 4,139,578.46 | 3,963,377.40 | 67,656.15 | 3,376,504 |
| WELSH CHURCH ACTS | 1,336,910.08 | 1,335,315.29 | 13,326.56 | 81,112.00 | 113,931.89 | | 45,807.26 | - 124,156.21 | 1,225,741.25 | 1,173,567.60 | 20033.18 | 999,793 |
| **IS-CYFANSWM/*SUB TOTAL*** | 6,106,396.26 | 6,099,112.00 | 60,869.64 | 83,197.00 | 466,411.25 | - | 209,226.70 | - 567,089.00 | 5,365,319.71 | 5,136,945.00 | 87,689.33 | 4,376,297 |
| Staff Emergency Fund | 1,824.61 | 1,824.61 | | 9.78 | | | | | 1,834.39 | 1,834.39 | | 1,834.39 |
| **CYFANSWM TERFYNOL/*GRAND TOTAL*** | **6,108,220.87** | **6,100,936.61** | **60,869.64** | **83,206.78** | **466,411.25** | **-** | **209,226.70** | **- 567,089.00** | **5,367,154.10** | **5,138,779.39** | **87,689.33** | **4,378,131.39** |